

# MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held  
at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 25ain Tachwedd, 2021 at  
2.00 pm

**CYNGHORWYR** Cynghorydd Sirol P White (Cadeirydd)  
**YN** Cynghorydd Sirol J. Higginson (Is-Gadeirydd)  
**BRESENNOL:**

Cynghorydd Sirol: M. Feakins, P. Jordan, M. Lane, P. Murphy,  
V. Smith, B. Strong and J. Watkins

## **SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

Matt Phillips	Pennaeth Cyfraith/Swyddog Monitro
Andrew Wathan	Prif Archwilydd Mewnol
Peter Davies	Prif Swyddog, Adnoddau
Wendy Barnard	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
Emma Davies	Swyddog Perfformiad
Richard Jones	Rheolwr Perfformiad
Rachel Freitag	Audit Wales Officer
Matthew Gatehouse	Pennaeth Polisi a Llywodraethiant

## **YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorydd Sirol A. Easson

### **1. Datganiadau o Fuddiant**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

### **2. Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn y cyfarfod.

### **3. Nodi'r Rhestr Weithredu o'r cyfarfod blaenorol.**

Ni chymerwyd unrhyw gamau o'r cyfarfod blaenorol.

### **4. Adolygiad Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

Gohiriwyd yr eitem hon tan y cyfarfod nesaf.

### **5. Diweddariad ar Farnau Archwilio Mewnol Anffafriol**

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol yr adroddiad chwe misol ar gynnydd barn anffafriol. Dywedwyd wrth y Pwyllgor nad oedd unrhyw argymhelliad i alw rheolwyr gweithredol a

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

### Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 25ain Tachwedd, 2021 at 2.00 pm

Phenaethiaid Gwasanaeth i mewn i gyfiawnhau diffyg cynnydd ac i ddwyn i gyfrif am welliannau yn y dyfodol.

Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, gwahoddwyd yr aelodau i ofyn cwestiynau ac i wneud sylwadau:

- Gofynnodd Aelod o'r Pwyllgor a oedd y cyfrifoldeb dros Gaffael Bwyd wedi symud i Gyngor Dinas Caerdydd oherwydd y gwaith cydweithredol, a dywedwyd wrtho p'un a yw'r cyfrifoldeb wedi symud ai peidio, fod dyletswydd i ddilyn yr argymhellion. Gofynnir am eglurhad os yw hyn yn rhan o'r gwaith cydweithredol a chaiff ei adrodd i'r cyfarfod nesaf.
- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd bod barn 2018/19 ar Gastell Cil-y-coed a gwaith dilynol Castell Cil-y-coed 2019/20 yn cyfeirio at yr un archwiliad. Nid oedd unrhyw ddilyniant oherwydd Covid ac mae Castell Cil-y-coed yn parhau ar y rhestr o waith dilynol.
- Gofynnodd Aelod o'r Pwyllgor a fyddai'r anallu i fynd ar drywydd rhai archwiliadau oherwydd Covid yn ychwanegu at lwyth gwaith y Tîm Archwilio Mewnol ac a oes digon o adnoddau staff ar gael i dalu am y gwaith ychwanegol. Esboniwyd y bydd y llwyth gwaith ychwanegol yn cael ei reoli o fewn y llwyth gwaith presennol. Bydd y cynllun archwilio yn ystyried gwaith dilynol, swyddi newydd a staff sydd eu hangen. Mae hyn yn cynnwys gwaith dilynol ar farn fwy ffafriol.
- Dywedodd Aelod o'r Pwyllgor rhaid bod y diffyg gweithredu yn beth digalon. Eglurwyd nad yw'r adroddiad dilynol yn cynnwys barn gyfyngedig. Yn gyffredinol, mae ymateb cadarnhaol i'r sicrwydd barn cyfyngedig a roddwyd. O'i ddilyn, mae rheolwyr gweithredol wedi gweithredu llawer o'r gwelliannau sydd eu hangen i ddatrys y risgiau a nodwyd gan arwain at ychydig iawn o geisiadau i wahodd rheolwyr gweithredol a'u Pennaeth Gwasanaeth i'r Pwyllgor.

Cymeradwywyd yr argymhellion isod heb unrhyw gyfarwyddyd i alw i mewn unrhyw reolwyr gweithredol na phenaethiaid gwasanaeth.

1. Bod y Pwyllgor Archwilio yn nodi'r gwelliannau a wnaed gan wasanaethau'n dilyn y farn archwilio sicrwydd cyfyngedig gwreiddiol a gyhoeddwyd.
2. Os yw Aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn pryderu am unrhyw un o'r safbwyntiau archwilio a gyhoeddwyd neu ddiffyg gwelliant a wnaed ar ôl yr adolygiad archwilio dilynol, dylid ystyried galw i mewn y rheolwr gweithredol a Phennaeth y Gwasanaeth er mwyn iddynt gyfiawnhau'r diffyg cynnydd a'u dwyn i gyfrif am welliannau yn y dyfodol.

#### **6. Tystysgrif Cydymffurfiaeth Archwilio Cymru ar gyfer asesiad perfformiad archwiliad Cyngor Sir Fynwy 2020/21**

Cyflwynodd Swyddog Archwilio Cymru Dystysgrif Cydymffurfio Archwilio Cymru ar gyfer archwilio adroddiad asesiad perfformiad Cyngor Sir Fynwy. Mae'r dystysgrif yn cadarnhau bod yr awdurdod wedi cydymffurfio'n gyfreithiol â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol i lunio cynllun gwella ac asesiad blynyddol i fesur cynnydd yn ei erbyn. Dyma flwyddyn olaf y gofyniad hwn gan fod y Mesur Llywodraeth Leol wedi'i ddisodli gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021.

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

### **Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 25ain Tachwedd, 2021 at 2.00 pm**

Diolchodd y Rheolwr Perfformiad i Archwilio Cymru am eu gwaith yn cynhyrchu'r ddogfen. Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau yn gofyn am newidiadau i drefniadau perfformiad. Yn y dyfodol, rhaid i'r Cyngor lunio adroddiad hunanasesu blynyddol a fydd yn cyfeirio at berfformiad 2021/22 ac a gaiff ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Diolchodd Aelod o'r Pwyllgor i Swyddog Archwilio Cymru am gysylltu â hi i egluro rhai pwyntiau y tu allan i'r cyfarfod.

Nodwyd yr adroddiad.

#### **7. Adolygiad o'r Gofrestr Risg Strategol (bob 6 mis)**

Cyflwynodd y Swyddog Perfformiad yr adroddiad chwe misol i adolygu'r Gofrestr Risg Strategol. Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, gwahoddwyd cwestiynau a sylwadau gan Aelodau'r Pwyllgor:

- Holodd Aelod o'r Pwyllgor am ddiffyg posibl mewn cyllid i gymryd lle cyllid yr Undeb Ewropeaidd (UE) a oedd ar gael yn flaenorol, a gofynnodd a oes digon o ystyriaeth wedi'i rhoi i'r risgiau sy'n deillio o'r ffaith nad yw'r lefelau blaenorol o gyllid ar gael. Cadarnhawyd bod risgiau gweddilliol o risgiau wedi'u dad-ddwysáu yn cael eu hystyried a chyfeiriwyd y Pwyllgor at risgiau 4a a 4b ar gyfer rheoli risgiau cysylltiedig ag arian, gan nodi y byddai diffygion posibl yn cael eu cynnwys fel y bo'n briodol. Os yw'r risg yn fwy sylweddol, byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i gynnwys y risg yn ei rinwedd ei hun.

Tynnodd y Dirprwy Brif Weithredwr a'r Prif Swyddog Adnoddau sylw at y ffaith bod Llywodraeth y DU yn cynyddu'r cyllid. Er bod y ddau gais cyntaf a wnaed yn aflwyddiannus, bydd ceisiadau pellach yn cael eu gwneud. Mae'r awdurdod wedi bod yn llwyddiannus iawn gyda'i geisiadau am Gyllid Cydnerthedd Cymunedol. Mae'r Gronfa Ffyniant a Rennir yn debygol o gymryd lle'r cronfeydd hyn; disodli cyllid yr UE. Nid yw'r broses ymgeisio wedi'i phenderfynu ac mae'n risg.

- Diolchodd Aelod o'r Pwyllgor i swyddogion am yr adroddiad ac roedd am dynnu sylw at ddau risg lefel uchel. 1) Risg 12 – lleihau allyriadau carbon a holi faint o 'wydnwch' sy'n canolbwyntio arno a 2) Risg 5 - recriwtio a chadw staff i gynnal gwasanaethau ac unrhyw welliannau i'r broses recriwtio.

O ran Risg 12, eglurodd y Rheolwr Perfformiad fod dau gam lliniaru clir; a) cyflawni ein strategaeth argyfwng hinsawdd a b) sut mae'r awdurdod yn paratoi ac yn addasu i effaith newid yn yr hinsawdd gan gydnabod bod lefel y risg yn uchel gyda rhai ffactorau y tu hwnt i'n rheolaeth. Un enghraifft o liniaru effaith y newid yn yr hinsawdd yw gweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i dreialu rhai technegau rheoli perygl llifogydd naturiol a gweithio ar gynlluniau gwrthsefyll yr hinsawdd.

Wrth ystyried Risg 5, ymatebodd y Prif Swyddog Pobl a Llywodraethu mai'r bwriad yw creu proses recriwtio yn seiliedig ar gaffael talent go iawn. Mae dulliau gwahanol eisoes yn cael eu defnyddio i ddenu ymgeiswyr addas. Cyfeiriodd at y prinder sgiliau bydeang. Esboniodd fod cymwysiadau meddalwedd yn cael eu hystyried, hyfforddiant datblygu gyrfa/arweinyddiaeth a nodi'r ffyrdd gorau o weithio er budd cyflogion a

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

### Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 25ain Tachwedd, 2021 at 2.00 pm

thrigolion y Sir i wella recriwtio a chadw staff. Y flaenoriaeth yw cadw mantais gystadleuol.

- Mewn ymateb i gwestiwn Aelod am strategaeth fasnachol yr awdurdod, cadarnhawyd bod £50M wedi'i fenthycu. Mae'r Llywodraeth yn gwrthod defnydd y cyllid ar gyfer rhentu o dan y strategaeth a gofynnodd beth fyddai'r goblygiadau i'r Cyngor. Esboniodd y Dirprwy Brif Weithredwr mai un o ofynion y Pwyllgor Buddsoddiadau yw ei fod yn cyflwyno adroddiad blynyddol. Cyflwynir hyn yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Cadarnhawyd bod y Canghellor wedi tynhau'r gallu i Gynghorau ddefnyddio benthyca o'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ar gyfer gweithgarwch masnachol ar gyfer elw a dychweliadau. Nid bwriad yr awdurdod fu hyn ond yn hytrach defnyddio'r enillion a gynhyrchir o fuddsoddiadau masnachol i gynnal gwasanaethau rheng flaen. Gall greu rhywfaint o rwystr i fuddsoddiad y tu allan i ffin y sir ac mae cyngor yn cael ei geisio yn unol â hynny. Mae Castlegate a Pharc Hamdden Casnewydd yn gaffaeliadau ôl-weithredol.

Fel y nodir yn yr argymhellion, defnyddiodd yr Aelodau'r asesiad risg i ystyried effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg yr awdurdod ac i ba raddau y mae'r risgiau strategol sy'n wynebu'r awdurdod yn cael eu cofnodi'n briodol.

Mae'r Aelodau'n craffu, yn barhaus, ar yr asesiad risg a'r deiliaid cyfrifoldebau i sicrhau bod risg yn cael ei rheoli'n briodol.

#### **8. Gweithredu Argymhellion Archwilio Mewnol Cytûn**

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol adroddiad ar Weithredu'r Argymhellion Archwilio Mewnol y cytunwyd arnynt. Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, gwahoddwyd yr Aelodau i ofyn cwestiynau ac i wneud sylwadau.

Gofynnodd Aelod a oedd y gostyngiad yng ngweithrediad yr argymhellion y cytunwyd arnynt yn gysylltiedig â ffactorau Covid. Ymatebwyd bod hyn yn rhannol felly gan fod rheolwyr gweithredol yn cael eu cyfeirio i rywle arall a bod eu blaenoriaethau wedi'u newid i gynnal darpariaeth rheng flaen yn hytrach na gweithredu argymhellion. Mae staff archwilio yn gweithio gyda rheolwyr i wneud gwaith dilynol a gofyn am dystiolaeth o weithredu. Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi rhoi benthyg ei gefnogaeth i hyrwyddo'r camau gweithredu hyn. Rhagwelir y bydd gwelliant sylweddol yn yr adroddiad nesaf i'r Pwyllgor ymhen 6 mis.

Esboniodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod y Prif Archwilydd Mewnol yn mynychu cyfarfodydd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn rheolaidd i gryfhau'r rhyngweithio â'r Tîm Arwain a'r Adran. Gan dderbyn yr amgylchiadau lliniarol sydd wedi cael effaith, mae disgwyliad clir bod yn rhaid gwneud gwelliannau, ac mae dystiolaeth eisoes o hyn yn digwydd.

Nodwyd yr argymhelliad bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystyried yr adroddiad hwn, yn nodi unrhyw bryderon ynghylch peidio â gweithredu argymhellion archwilio a lle bo'n briodol yn ystyried galw unrhyw reolwyr i mewn am esboniad pellach ynghylch pam nad yw gweithredu'r camau gweithredu wedi bod mor gynhyrchiol â'r disgwyl.

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held  
at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 25ain Tachwedd, 2021 at  
2.00 pm

### 9. Blaengynllun Gwaith

Gwnaed y newid canlynol i'r cynllunydd:

- Trosolwg o'r trefniadau Rheoli Perfformiad a symudwyd i'r 17<sup>eg</sup> Chwefror 2022

### 10. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gyfarfod cywir.

### 11. I gadarnhau dyddiad y cyfarfod nesaf sef 13eg Ionawr 2022

**Gorffennodd y cyfarfod am 3.05 pm**